# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **7 Mai 2014**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Nick Davies | Adran Etholiadol: | Uplands |
|---|---|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Ar y cyd â'm cydweithwyr ward, gwnaethom gynnal cymorthfeydd misol ym Marchnad Uplands, gan sicrhau gweledededd a phresenoldeb yn y gymuned. Euthum i gyfarfodydd PACT yn rheolaidd â phreswylwyr a'r heddlu. Rwyf wedi cynrychioli pryderon preswylwyr Uplands mewn cyfarfodydd trwyddedu a chynllunio. Rwyf wedi brwydro er lles holl breswylwyr Uplands yn erbyn effeithiau landlordiaid a thenantiaid anystyriol mewn tai amlbreswyl (HMO) ar yr ardal.

Rwyf wedi bod yn rhan ers y cychwyn cyntaf o gynllunio a threfnu Marchnad Uplands, gan gydnabod bod hon yn ffordd dda o siopa ac yn ddigwyddiad cymunedol go iawn sy'n adennill lle cyhoeddus o'r car.

## Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y Cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 1 | 11 | / | 12 | 92 | % |
| Y cyngor | 13 | / | 15 | 87 | % |
| Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd | 6 | / | 8 | 75 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 6 | / | 8 | 75 | % |
| Pwyllgor Cydraddoldeb | 8 | / | 12 | 67 | % |
| Pwyllgor y Rhaglen Graffu | 16 | / | 16 | 100 | % |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr | 2 | / | 3 | 67 | % |
| CYFFREDINOL | 62 | / | 74 | 84 | % |

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd

Rwyf am i Abertawe fod yn ddinas fwy cynaliadwy a'm prif ddiddordeb yw teithio cynaliadwy. Yn y maes rwyf wedi cynorthwyo Aelod y Cabinet dros Gynaladwyedd. Rwy'n arwain ar faterion beicio, gan gadeirio cyfarfodydd y Rhaglen Beicio ar Waith â swyddogion ac aelodau o Wheelrights a Sustrans, gan weithio tuag at rwydwaith beicio gwell ac integredig, gan annog pobl i feicio i'r gwaith, i leoedd astudio ac i'r siopau.

Rwyf wedi cadeirio gweithgor sy'n edrych ar barodrwydd yr awdurdod ar gyfer diwygio lles. Rwyf wedi bod yn aelod o weithgor sy'n edrych ar sut mae cadw adeiladau hanesyddol Abertawe. Ar adeg llunio'r adroddiad hwn, rwy'n gynghorydd y cyngor ar fwrdd Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe, yn Gynullydd Ysgol Brynmill ac yn aelod o Ganolfan Gymunedol Brynmill.

## Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Gyda chydweithwyr o wardiau Uplands a'r Castell ac Aelodau Cynulliad Abertawe, rwyf wedi mynd i gyfarfodydd rheolaidd â swyddogion i geisio ffrwyno effeithiau negyddol gorddwysedd HMO a'u heffaith ar gydlyniant cymunedol. Rydym wedi lobïo Llywodraeth Cymru i newid y rheolau cynllunio i roi mwy o reolaeth i'r awdurdod dros y broses gynllunio ynglŷn â HMO a chyflwyno côd gwirfoddol i reoli nifer yr arwyddion 'Ar Osod'. Rwyf wedi gweithio'n agos gyda swyddogion i fynd i'r afael â'r effeithiau ar ansawdd bywyd preswylwyr gan HMO sy'n cael ei gynnal a'i gadw a'i reoli'n wael.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Euthum i'r sesiynau hyfforddi canlynol:-

14.10.2013 – Cyn-benderfynu

27.11.2013 - Deall Cyllideb y Cyngor

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Fel preswylydd tymor hir yn Uplands, rwy'n gwybod mai ei apêl yw ei gyfuniad o gartrefi, parciau, siopau a bywyd gwyllt. Rwyf wedi gweithio i sicrhau cydbwysedd rhyngddynt fel bod Uplands yn parhau'n lle gwych i fyw, gweithio, siopa a chael hwyl ynddo. Rwyf wedi helpu i wella gwedd Cilgant Uplands gyda bolardiau, biniau a rheseli beiciau newydd. Rwyf wedi cefnogi digwyddiadau cymunedol ym Mharc Cwmdoncyn ac (ar adeg llunio hwn) rwy'n aelod o Gyfeillion Parc Brynmill.

Rwyf wedi cefnogi a mynd i ddigwyddiadau cerddorol a diwylliannol yn Ward Uplands, gan gynnwys y rhai mewn cysylltiad â chanmlwyddiant geni Dylan Thomas.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog sylfaenol - £13,175 y flwyddyn.

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| **Dyddiad:** | 28.05.14 |
|---|---|